

CABINET

DYDD LLUN, 30 IONAWR 2023

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd D. Price (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

G. Davies	P.M. Hughes	G.H. John	A. Lenny
E.G. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan Owen	

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

L.D. Evans

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

Y Cyngorydd D.M. Cundy

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters, Prif Weithredwr

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant

A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

J. Jones, Pennaeth Adfywio

D.W. John, Pennaeth Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol Dros Dro

C. Higginson, Media Manager

L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.41 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd A.Davies.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR 09 IONAWR 2023

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2023 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. DEISEB AR GYFER DIOGELWCH PALMENTYDD A FFYRDD - CASTELLNEWYDD EMLYN

Yn unol â chofnod 7 o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022, bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ar ddeiseb mewn perthynas â Diogelwch Palmentydd a Ffyrdd yng Nghastellnewydd Emlyn.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y gwaith partneriaeth parhaus ym meysydd Addysg, Peirianeg a Gorfodaeth i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol i wella diogelwch ar y ffyrdd ac atal gwrthdrawiadau traffig.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r fframwaith dau gam a roddwyd ar waith gan y Cyngor mewn perthynas â blaenoriaethu gwelliannau i'r briffordd yng nghydestun y cyfyngiadau cyllidebol er mwyn ymdrin â cheisiadau o'r fath ar sail tystiolaeth a sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio at y meysydd sydd â'r angen mwyaf.

Nodwyd hefyd ddata perthnasol i'r Cabinet ei ystyried o ran y cyfleusterau croesi presennol, llif cerbydau, cyfansoddiad a chyflymder, llif cerddwyr a chyfansoddiad, nodweddion safle a data ynghylch damweiniau ar y ffordd, a nodwyd bod angen casglu data pellach o ran traffig a nifer y cerddwyr rhwng oriau brig ac oriau tawel i sicrhau asesiad safle cynhwysfawr.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

6.1 Nodi cynnwys yr adroddiad

6.2 Bod y deisebwyr yn cael gwybod am yr adroddiad.

6.3 Bod arolygon traffig ac asesiadau croesfannau i gerddwyr yn cael eu cynnal mewn lleoliadau allweddol yng Nghastellnewydd Emlyn yng Ngwanwyn 2023 a bod y deisebwyr yn cael gwybod am y canfyddiadau.

7. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU

Yn dilyn cofnod 7 o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2022, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad cynnydd o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Cadarnhawyd bod Llywodraeth y DU wedi cymeradwyo Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol y De-orllewin ym mis Rhagfyr 2022 ac roedd dyraniad cyllid o

£38.6m ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi ei sicrhau er mwyn galluogi'r Awdurdod i gyflawni rhai o amcanion strategol y Sir. Cyfeiriwyd at y goblygiadau cyfreithiol a nodwyd yn yr adroddiad lle cadarnhawyd bod Cyngor Abertawe, fel yr Awdurdod Arweiniol ar ran rhanbarth y De-orllewin yn parhau â'r atebolrwydd cyffredinol o ran cyllido a gweithrediad y Gronfa Ffyniant Gyffredin, fodd bynnag cyfrifoldeb yr Awdurdod oedd rheolaeth a chyflawniad y rhaglen yn Sir Gaerfyrddin.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y prif brosiectau o fewn y themâu Cymuned, Gwledig, Lle, Cefnogi Busnes Lleol a Chyflogadwyedd a Sgiliau. Rhoddwyd trosolwg i'r Cabinet o'r goblygiadau ariannol, y prosesau llywodraethu a'r prosesau hefyd. Yn hyn o beth, rhoddwyd ystyriaeth i'r trefniadau gwneud penderfyniadau ar gyfer y prif brosiectau a'r prosiectau annibynnol a oedd yn cynnwys datblygu ffurflen gais a meini prawf asesu, fel yr atodir i'r adroddiad.

I gydnabod fod Llywodraeth y DU wedi pennu dyddiad cwblhau o 31 Mawrth 2025 ar gyfer holl weithgarwch y Gronfa Ffyniant Gyffredin, gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen â recriwtio staff ar gyfer timau mewnol y prif brosiectau a'r tîm Rheoli Rhaglen, ynghyd ag agor galwadau ar gyfer pob cais cyn ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth ffurfiol â Chyngor Abertawe.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- 7.1 Cymeradwyo'r camau a gymerwyd hyd yma a'r rhai a gafodd eu cynnig i alluogi swyddogion i barhau â'u gwaith paratoi ar gyfer darparu'r cyllid, h.y. sefydlu prosesau a gweithdrefnau ar gyfer cyflawni, a datblygu cytundebau cyfreithiol ffurfiol yn ôl y gofyn.**
- 7.2 Cymeradwyo'r cais arfaethedig a'r broses o wneud penderfyniadau.**
- 7.3 Cymeradwyo hyblygrwydd yn y cyllidebau gwaith er mwyn eu mireinio mewn ymgynghoriad â Chyllid a'r Bartneriaeth Adfywio.**
- 7.4 Dirprwyo awdurdod i'r Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth i lofnodi'r manylion am y prif brosiectau yn dilyn argymhelliad y Bartneriaeth Adfywio.**
- 7.5 Symud ymlaen gyda risg o ran galw am geisiadau cyn dechrau ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth ffurfiol â Chyngor Abertawe.**
- 7.6 Dirprwyo awdurdod i'r Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth i gymeradwyo prosiectau hyd at £100k.**
- 7.7 Symud ymlaen gyda risg o ran recriwtio staff ar gyfer timau mewnol y prif brosiectau a'r tîm Rheoli Rhaglen er mwyn galluogi'r rhaglen i ddechrau cyn gynted â phosib.**

8. CYMERADWYO ARFOR 2 (2022-2025)

Dywedwyd wrth y Cabinet, ar sail llwyddiant cam cyntaf y Rhaglen, byddai £11 miliwn arall yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru tan fis Mawrth 2025 i

gefnogi cymunedau i ffynnu drwy ymyriadau economaidd ac i gyfrannu at ragor o gyfleoedd o ran gwelededd a defnydd dyddiol o'r Gymraeg .

Bu'r Cabinet yn ystyried y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer rhaglen Arfor 2, ynghyd â'r amcanion strategol a fyddai'n cael eu cyflawni trwy gyflwyno'r pecynnau gwaith canlynol:

- Llwyddo'n Lleol - Rhaglen ieuencid wedi'i thargedu i gefnogi sgiliau entrepreneuriaidd i geisio darbwyllo ieuencid rhag gadael yr ardal.
- Cymunedau Mentrus - Cynllun sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin i greu cyfleoedd i fusnesau newydd, twf a datblygiad yn y trydydd sector trwy gyfrwng trydydd grant sydd wedi'i alinio ag amcanion Arfor.
- Cronfa Her Arfor - Cyfle i sefydliadau ar draws y rhanbarth gyflwyno ceisiadau am adnoddau i ddatblygu gweithgareddau a chynllun peilot a fydd yn mynd i'r afael ag amcanion strategol y Rhaglen.
- Cryfhau hunaniaeth Cymunedau Arfor - Creu rhaglen gyfathrebu a marchnata ar gyfer y Rhaglen.
- Monitro a Gwerthuso a dysgu

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- 8.1 Bod y camau a gymerwyd hyd yn hyn i alluogi'r Sir i elwa ar Raglen Arfor 2 yn cael eu cymeradwyo.**
- 8.2 Cymeradwyo sefydlu trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer gweithredu'r rhaglen ar lefel leol, gan gynnwys sefydlu'r grant trydydd parti Cymunedau Mentrus.**

9. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH WASTRAFF

Yn dilyn cofnod 7 o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2022, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ynghylch Strategaeth Wastraff y Cyngor ar gyfer 2021-2025, gan gynnwys cyflwyno'r newidiadau dros dro i'r drefn casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd.

Nododd strategaeth yr Awdurdod raglen gynhwysfawr o waith i sicrhau newid trawsnewidiol o ran gwasanaethau yn unol â'i uchelgais i leihau carbon. Rhoddwyd trosolwg o'r sefyllfa interim i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar y newidiadau a wnaed i'r casgliadau gwastraff ymyl y ffordd a oedd wedi dechrau ar 23 Ionawr 2023. Dywedwyd wrth y Cabinet fod yr Awdurdod yn anelu at gyflwyno newid gwasanaeth mwy hirdymor i gyflawni methodoleg casglu'r Glasbrint erbyn 2024, a fyddai'n cynnwys gwelliannau i ddarpariaeth y fflyd bresennol.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r polisi rheoli gwastraff a atodir i'r adroddiad a oedd yn darparu dogfen gyfunol yn amlinellu darpariaeth yr Awdurdod o ran gwasanaethau casglu sbwriel ac ailgylchu, ei rwydwaith o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a chyfleusterau ailddefnyddio yn unol ag amcan strategol yr

Awdurdod o wella casgliadau gwastraff domestig ymyl y ffordd er mwyn cynyddu'r cyfraddau ailgylchu yn Sir Gaerfyrddin.

Cyfeiriwyd at y cosbau ariannol sylweddol a fyddai'n cael eu rhoi pe bai'r Awdurdod yn methu â chyrraedd y targedau ailgylchu statudol. Ar ben hynny, wrth ystyried rhwymedigaethau moesol yr Awdurdod i leihau ei ôl troed carbon, roedd y Cabinet yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed hyd yma i symud tuag at system sy'n seiliedig ar egwyddorion economi gylchol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

9.1 Nodi cynnydd a chyflawniad Strategaeth Wastraff 2021.

9.2 Cymeradwyo'r Polisi Gwastraff ac Ailgylchu.

10. I GADARNHAU PENODIAD IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR CRAFFU - LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD FEL CYNRYCHIOLYDD YR AWDURDOD AR 'PATROL' A'R AELOD CABINET DROS WASANAETHAU GWASTRAFF, TRAFNIDIAETH A SEILWAITH FEL YR EILYDD ENWEBEDIG

Bu'r Cabinet yn ystyried enwebiadau mewn perthynas â phenodi Cynrychiolydd yr Awdurdod ac Eilydd ar PATROL (Rheoliadau Parcio a Thraffig y tu allan i Lundain). Roedd angen yr enwebiad o ganlyniad i ymddiswyddiad y cynrychiolydd presennol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

10.1 Cadarnhau Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Lleuedd, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd fel cynrychiolydd yr Awdurdod ar 'PATROL'.

10.2 Cadarnhau yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gwastraff, Trafnidiaeth a Seilwaith fel eilydd yr Awdurdod ar 'PATROL'.

11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYD YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

CHAIR

DATE